# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 2

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Amrywiol ac atodol*

### 34 Datganiadau neu wybodaeth anwir neu gamarweiniol

(1) Mae person—

(a) sy'n gwneud datganiad neu osodiad arall o dan y Rhan hon sy'n anwir neu'n gamarweiniol gan wybod neu gredu ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol, neu

(b) sy'n rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol o dan y Rhan hon gan wybod neu gredu ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy.

### 35 Canllawiau gan Weinidogion Cymru

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (1).

### 36 Pwerau i godi taliadau: atodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn bwriadu codi tâl o dan adran 6 neu 13.

(2) Cyn codi'r ffi, rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chyhoeddi polisi ar ffioedd.

(3) Wrth bennu ffi at ddibenion adran 6 neu 13 mae'r awdurdod lleol—

(a) yn gorfod gweithredu yn unol â'i bolisi ar ffioedd,
(b) yn cael pennu ffioedd gwahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o achos, ac
(c) yn cael penderfynu nad oes angen talu ffi mewn achosion penodol neu ddisgrifiadau penodol o achos.

(4) Wrth bennu ffi at unrhyw un neu ragor o'r dibenion hyn, ni chaiff yr awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau y mae'n mynd iddynt wrth arfer—
(a) ei swyddogaethau o dan unrhyw un neu ragor o adrannau 15 i 25, neu
(b) unrhyw swyddogaethau o dan unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon o ran safle nad yw'n safle rheoleiddiedig.

(5) Caiff yr awdurdod lleol ddiwygio'i bolisi ar ffioedd ac, os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r polisi fel y'i diwygiwyd.

## 37 Cofrestrau trwyddedau safle

(1) Rhaid i bob awdurdod lleol gadw cofrestr o drwyddedau safle a ddyroddwyd ar gyfer tir a leolir yn ardal yr awdurdod lleol.

(2) Mae'r gofrestr i fod yn agored i'r cyhoedd gael edrych arni ar bob adeg resymol.

(3) Os yw awdurdod lleol o dan adran 27 yn cofnodi amrywiad ar unrhyw un o amodau y drwydded safle, rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi'r ffaith honno yn y gofrestr trwyddedau safle.

## 38 Tir y Goron

Mae'r Rhan hon yn gymwys i dir nad y Goron yw ei berchennog hyd yn oed os oes buddiant yn y tir yn perthyn i'w Mawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Dugaeth Caerhirfryn, neu i Ddugaeth Cernyw, neu yn perthyn i adran o'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar ran Ei Mawrhydi at ddibenion adran o'r llywodraeth.

## 39 Dehongli

(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*"), o ran unrhyw dir, yw'r awdurdod tân ac achub o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i'r ardal y lleolir y tir ynddi;

ystyr "gorchymyn datblygu" ("*development order*") yw gorchymyn a wneir o dan adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(2) Pan fo tir nad yw'n fwy na chyfanswm o 400 o fetrau sgwâr o ran ei arwynebedd yn cael ei osod o dan denantiaeth a wnaed gyda golwg ar ddefnyddio'r tir fel safle rheoleiddiedig, at ddibenion y Rhan hon ystyr "perchennog", o ran y tir, yw'r person y byddai ganddo hawl i feddiant ar y tir heblaw am hawliau unrhyw berson o dan y denantiaeth honno.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at wneud gwaith yn cynnwys cyfeiriad at blannu coed a llwyni a gwneud gwaith arall i gadw neu i wella amwynder tir.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at ganiatâd cynllunio i'w gymryd fel cyfeiriad at ganiatâd cynllunio p'un a yw wedi ei gyfyngu mewn unrhyw ffordd ai peidio neu'n

ddarostyngedig i unrhyw amod neu gyfyngiad, ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon o'r Ddeddf hon at ganiatâd cynllunio yn cynnwys cyfeiriad at ganiatâd cynllunio y bernir ei fod wedi ei roi neu a roddwyd ar ddynodi parth menter o dan Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.